# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 5

CYFFREDINOL

*Disgyblion a myfyrwyr mewn sefydliadau yng Nghymru sy'n preswylio yn Lloegr*

### 87 Cymhwyso darpariaethau ailystyried i ddisgyblion a myfyrwyr sy'n preswylio yn Lloegr

(1) Mae is-adrannau (2) a (3) o'r adran hon yn gymwys i blentyn neu berson ifanc sydd—

(a) yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, a

(b) yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru.

(2) Mae adrannau 26, 27, 29 (fel y mae'n gymwys i adrannau 26 a 27 yn unig) a 32 yn gymwys i'r plentyn neu'r person ifanc gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) yn adran 26(1)(b), 27(1)(b) a 32(1)(b), yn lle "i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc" rhodder "i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol";

(b) yn adran 27(1)(a), yn lle "neu 12(3)" rhodder ", 12(3) neu 12(5)";

(c) yn adran 29(2), hepgorer paragraff (b);

(d) ym mhob un o'r adrannau mae'r cyfeiriadau eraill at "awdurdod lleol" i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol;

(e) ni chaniateir i'r ddyletswydd yn adran 27(6) gael ei chyflawni ond yn unol â pharagraff (a) o'r ddarpariaeth honno.

(3) Mae adran 14 yn gymwys i'r plentyn neu'r person ifanc yn rhinwedd is-adran (2) ac adran 26(4) gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) yn adran 14(1), hepgorer "os yw awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc ac";

(b) mae'r cyfeiriadau at "awdurdod lleol" i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol;

(c) ni chaniateir i'r ddyletswydd yn adran 14(2) gael ei chyflawni ond yn unol â pharagraff (b) o'r ddarpariaeth honno;

(d) nid yw'r ddyletswydd yn adran 14(2) yn gymwys—

(i) os yw'r awdurdod lleol yn gofyn i awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad o dan adran 36 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6) ac os yw'r awdurdod yn Lloegr, yn rhinwedd y cais hwnnw neu fel arall, yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 24(1) o'r Ddeddf honno), neu

(ii) os yw awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun AIG ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc;

(e) os yw'r awdurdod lleol, yn dilyn cais o dan baragraff (d)(i), yn cael ei hysbysu gan yr awdurdod lleol yn Lloegr nad yw'n ofynnol iddo sicrhau cynllun AIG ar gyfer y plentyn, mae'r ddyletswydd yn adran 14(2) yn gymwys eto mewn cysylltiad â'r plentyn neu'r person ifanc;

(f) nid yw is-adrannau (6) i (10) o adran 14 yn gymwys.

(4) Mae awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc sydd yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr at ddibenion adran 68 a 69—

(a) os yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, neu

(b) os yw wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yn ardal yr awdurdod.